OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 245

# Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle "ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC" rhodder "ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb 2011/92/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd fel y'i mabwysiadwyd ar 13 Rhagfyr 2011(**2**);"; a

(ii) yn y diffiniad o "ardal sensitif", ym mharagraff (f), yn lle "rheoliad 10 o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc.) 1994" rhodder "rheoliad 8 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017(**3**)"; a

(b) ym mharagraff (7), ar ôl "Gyfarwyddeb y Cyngor" mewnosoder "(ac eithrio'r Gyfarwyddeb)".

(3) Yn rheoliad 9(1)—

(a) yn lle "Caiff Gweinidogion Cymru", rhodder "Heb ragfarnu rheoliad 52, caiff Gweinidogion Cymru"; a

(b) hepgorer y geiriau o "yn unol ag" hyd at y diwedd.

(4) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 2(c)(v)—

(i) ar ôl "ddeddfwriaeth Aelod-wladwriaethau" mewnosoder "neu ddeddfwriaeth unrhyw ran o'r DU";

(ii) yn lle "gan Aelod-wladwriaethau yn unol â Chyfarwyddeb" rhodder "o dan ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE a wnaeth drosi Cyfarwyddeb"; a

(iii) ar ôl "Chyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC ar gadwraeth adar gwyllt" mewnosoder "neu Gyfarwyddeb 2009/147/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gadwraeth adar gwyllt"; a

(b) ym mharagraff 2(c)(vi), yn lle "yn neddfwriaeth yr UE" rhodder "yng nghyfraith yr UE a ddargedwir".

(**1**) O.S. 2009/3342 (Cy. 293), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/755 (Cy. 90) ac O.S. 2016/58 (Cy. 28).
(**2**) O.J. L 26, 28.1.2012, t. 1.
(**3**) O.S. 2017/1012, a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/1307.